

## DAFYDD GAM (bu farw 1415), milwr Cymreig



**Enw:** Dafydd Gam  
**Dyddiad marw:** 1415  
**Plentyn:** Gwladus verch Dafydd  
**Plentyn:** Morgan ap Dafydd Gam  
**Rhiant:** Llywelyn ap Hywel Fychan  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** milwr Cymreig  
**Maes gweithgaredd:** Milwrol  
**Awdur:** John Edward Lloyd

mab Llywelyn ap Hywel Fychan, tir-feddiannwr ym Mrycheiniog; yr oedd y tad o dylwyth Einon Sais, ac yn byw yng nghastell Penpont ar afon Wysg. Golyga'r llysenw fod ganddo lygad croes neu iddo golli un llygad. Dywed traddodiad i Ddafydd ffoi o'i fro enedigol ar ôl lladd ei berthynas Richard o Slwch, yn stryd fawr Aberhonddu. Fe'i cawn ef gyntaf, yn Ebrill 1400, yn ysgwier i'r brenin ac yn derbyn tâl o ddeugain marc yn y flwyddyn (*Cal. Close Rolls*, 79). Gan fod y brenin Harri eisoes, oblegid ei briodas â Mary Bohun, ag arglwyddiaeth Brycheiniog yn ei feddiant, y mae'n debyg nad oedd y gyfathrach rhwng Dafydd ag ef yn un newydd; gwyddys i Ddafydd barhau yn bleidiwr teyrngar i blaid y Lancastrïaid hyd ei farw. Ym mis Tachwedd 1401 fe'i gwobrwywyd o gronfa tir a gymerwyd oddi ar rai gwrthryfelwyr (*Cal. Pat. Rolls*, 11); dywed yr hanesydd Ysgotaidd, Walter Bower, iddo chwarae'i ran yn y fuddugoliaeth ar **Owain Glyn Dwr** ym Mhwll Melyn, gerllaw Caerbuga, 5 Mai 1405 (*Scotichronicon*, ed. W. Goodall, 1759, ii, 452). Y mae'r dyddiad hwn yn peri bod rhaid amau cywirdeb y stori wybyddus am ei ymosodiad ar **Glyn Dwr** yn y senedd a gyfarfu ym Machynlleth yn 1404; rhaid amau'r stori ar gyfrifon eraill hefyd a chofio hefyd na ddywedwyd mo'r stori hyd amser **Robert Vaughan**, Hengwrt (bu farw 1667). Y mae'n gwbl sicri i Ddafydd syrthio i ddwylo **Glyn Dwr**, ond yn llawer mwy diweddar na hyn; ym mis Mehefin 1412, pan oedd y gwrthryfel ar fin diweddu, y rhoddwyd awdurdod i senesgal a derbynnydd ('receiver') Aberhonddu, a thad y carcharor yn caniatáu, i drin gyda **Glyn Dwr** fater pridwerth 'David Gamm,' deiliad yn arglwyddiaeth Brycheiniog (*Cal. Pat. Rolls*, 406). Cafodd y carcharor ei ryddhau. Yn 1415 aeth Dafydd, gyda'i feistr y brenin, i Ffrainc, a bu farw ar faes brwydr Agincourt. Ymgasglodd ystorïau ynglyn a diwedd oes yr ymladdwr grymus hwn; er enghraifft, dywedwyd iddo gael ei wneud yn farchog y dydd y collodd ei fywyd. Canwyd ei glodydd yn hir gan ei ddisgynyddion, a oedd wyr o ddylanwad; am ddwy ganrif a hanner bu tylwyth Games yn wyr pwysig ym Mrycheiniog - yn Aberbrân, Newton (gerllaw Aberhonddu), Tregaer, Buckland, a Phenderyn - hyd nes i linach y gwrywod ddarfod o'r tir. Yr uchel-siryf diwethaf o'r enw oedd Hoo Games (1657). Trwy i'w ferch Gwladus briodi **Syr William ap Thomas** o Raglan daeth Dafydd yn gyndad i'r Herbertiaid i gyd.

### Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

J. E. Lloyd, *Owen Glendower / Owen Glyn Dwr* (1931), 43, 142, 148

*Gwaith Lewis Glyn Cothi* (Oxford 1837), 1-15

*Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarenceux and Norroy, two kings at arms*(Llandovery 1846), i, 56-7

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Dafydd Gam

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q679417

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Lloyd, J. E., (1953). DAFYDD GAM (bu farw 1415), milwr Cymreig. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAFY-GAM-1415>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwci  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Nodi gan  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government